**Cyngor Sir Ynys Môn / Isle of Anglesey**

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | Cyngor Sir |
| **DYDDIAD** | 8 Mawrth 2011 |
| **TEITL YR ADRODDIAD** | Protocol Gwybodaeth i Aelodau Drafft |
| **ADRODDIAD GAN** | Huw Pierce Pritchard, Swyddog Gwybodaeth Corfforaethol / |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | Mae'r adroddiad yn cyflwyno'r protocol draft, sy'n grynodeb o hawliau Aelodau i wybodaeth, fel bod y Cyngor Sir yn eii fabwysiadu yn y Cyfansoddiad. |

**1. Cefndir**

1.1 Mae cael at wybodaeth berthnasol yn hanfodol ar gyfer ymarfer rôl y Cynghorydd Sir.

1.2 Mae'r cyngor ynglŷn â'r hawliau i fynediad i wybodaeth i'w weld yn rhan 5.3.8 o Gyfansoddiad y Cyngor (Mynediad Aelodau i wybodaeth ac i ddogfennau'r Cyngor).

1.3 Mae'r wybodaeth geir yn rhan 5.3.8 o Gyfansoddiad y Cyngor yn gywir ond nid yw wedi'i chyflwyno ar hyn o bryd mewn ffurf y gellir ei deall yn rhwydd. Mae'n bwysig bod hawliau mynediad yr Aelodau ac ymrwymiadau'r Cyngor i ddarparu mynediad i wybodaeth yn cael eu mynegi mewn datganiad clir a diamwys. Nid yw'r Protocol Gwybodaeth yn newid hawliau Aelodau.

1.4 Mae'r Protocol Gwybodaeth drafft yn darparu crynodeb o sut y mae hawliau Aelodau i fynediad i wybodaeth wedi'u sefydlu mewn statud a chyfraith gwlad a hefyd y disgwyliadau mewn perthynas â chyfrinachedd.

1.5 Bydd darparu'r wybodaeth hon ar ffurf un Protocol hunangynhwysol yn sicrhau datganiad clir ar faterion mynediad i wybodaeth. Bydd protocol hefyd yn galluogi Cyngor i ddatblygu ei gynnwys er mwyn adlewyrchu'n well y newidiadau i'r tirlun cyfreithiol.

1.6 Mae'r Protocol yn cyfeirio at ymweliadau gan Aelodau i gyfleusterau'r Cyngor, gwaith briffio a rhyngweithio'r Cynghorwyr gydag eraill, oherwydd bod y materion hyn yn seiliedig ar gyfraith cyfrinachedd a materion cysylltiedig.

## 2. Darparu Gwybodaeth

2.1 Mae'r rhan hon o'r Protocol yn darparu gwybodaeth ynglŷn â hawliau'r Aelodau i gael mynediad a sut y deuir i benderfyniad ynglŷn â beth yw gwybodaeth sydd angen ei gwybod. Ceir hefyd wybodaeth ynglŷn â chyfrinachedd ac ymrwymiadau statudol o dan Ddeddf Diogelu Data 1988 yn yr Adran hon.

## 3. Ymweliadau

3.1 Mae'r Protocol yn pwysleisio y dylai ymweliadau gan Aelodau i gyfleusterau'r Cyngor fod wedi'u cefnogi gan angen rhesymol er mwyn gallu cyflawni eu dyletswyddau. Mae'r protocol yn rhyngweithio gyda pholisi CRB y Cyngor.

## 4. Materion Wardiau, Briffio a briffio gan y Rheolwr-gyfarwyddwr i Arweinyddion Grwpiau

4.1 Mae'r materion hyn wedi'u cysylltu gan y pwysigrwydd o barchu cyfrinachedd ac maent wedi'u cynnwys yn y Protocol er mwyn rheoli ymddygiad.

4.2 Mae'r Adran ar Briffio yn disodli rhan 5.3.6 o'r Protocol ar gyfer perthynas Aelod / Swyddog.

## 5. Newidiadau i'r Protocol drafft a ystyriwyd gan y Pwyllgor Gwaith

5.1 Sylwer bod un mân newid i fersiwn Gymraeg y Protocol a ystyriwyd gan y Pwyllgor Gwaith 23ain Chwefror 2011. Cyflwynir pwynt 29 i'r testun er mwyn newid y rhan Cyfarfodydd briffio'r Rheolwr-gyfarwyddwr i Arweinyddion Grwpiau. Dangosir y newidiadau i'r testun mewn italig.

## 6. Argymhellion

6.1 Bod y Cyngor yn cymeradwyo'r Protocol Gwybodaeth drafft ac yn argymell ei fabwysiadu yn y Cyfansoddiad.